B>Welsh 4/12/06 15:14 Page 1

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Dylech nodi

Mae Tudalen 8 o'r daflen Lwfans Byw i'r Anabl yn cynnwys gwybodaeth am pryd ddylai gofalwr wneud cais am Lwfans Gofalwr. Mae'r rheolau wedi newid ers i ni argraffu'r wybodaeth hyn.

Gwybodaeth diweddaraf am 'Cymorth i ofalwyr'

Os byddwch yn cael yr elfen ofal o Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd canol neu uchaf, ac mae rhywun yn gofalu amdanoch am 35 awr neu fwy yr wythnos, efallai gallant gael Lwfans Gofalwr. Dylai eich gofalwr wneud cais am Lwfans Gofalwr o fewn tri mis o'r dyddiad rydych yn cael y penderfyniad am eich Lwfans Byw i'r Anabl, fel nad ydynt yn colli unrhyw fudd-dal. Am fwy o wybodaeth, gweler y daflen **'Lwfans Gofalwr'**.

Gallwch gael ffurflen gais Lwfans Gofalwr o'r mannau canlynol.

- Y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, drwy ffonio **0800 88 22 00** (gweler **'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?'** yn y daflen hon).
- Yr Uned Lwfans Gofalwr, drwy ffonio **01253 856123** (ffôn testun **01772 899489**).

Gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr ar lein yn www.direct.gov.uk/carers.

Cofiwch, mae'n bwysig i'ch gofalwr wneud cais am Lwfans Gofalwr cyn gynted â phosibl – o fewn tri mis o'r penderfyniad am Lwfans Byw i'r Anabl os yn bosibl – neu fe allant golli allan ar fudd-dal.

Lwfans Byw i'r Anabl

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Beth yw Lwfans Byw i'r Anabl?

Help mewn arian parod di-dreth tuag at gostau ychwanegol y gallech eu hwynebu os ydych yn anabl yw Lwfans Byw i'r Anabl. Gallwch ei gael os:

- oes gennych anabledd corfforol neu feddyliol, neu'r ddau (yn cynnwys anhwylderau datblygu neu anawsterau dysgu);
- bod eich anabledd yn ddigon difrifol fel bod angen help arnoch gyda gofal personol neu os ydych yn cael anawsterau cerdded, neu'r ddau; ac
- eich bod o dan 65 oed pan rydych yn gwneud cais.

Gallech naill ai gael elfen ofal neu elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl – neu'r ddau ohonynt.

Mae'r daflen hon am Lwfans Byw i'r Anabl i oedolion rhwng 16 a 64 oed. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Byw i'r Anabl i bobl o dan 16 oed, gofynnwch am daflen 'Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant'. Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn, gofynnwch am daflen 'Lwfans Gweini'.

Gallwch gael Lwfans Byw i'r Anabl p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Nid oes rhaid eich bod wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Ni chaiff ei effeithio gan unrhyw gynilion neu incwm a allai fod gennych. Fodd bynnag, os ydych yn cael Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel, byddwch fel arfer yn cael hwnnw yn lle Lwfans Byw i'r Anabl.

Ni fydd angen archwiliad meddygol arnoch fel arfer, ond gallwch anfon adroddiadau gan eich ymwelydd iechyd neu feddyg gyda'ch cais.

A allaf ei gael?

Elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl

I gael elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl, mae'n rhaid:

- bod angen help arnoch gyda gofal personol oherwydd eich anabledd am o leiaf 3 mis; ac
- ei bod yn debygol y bydd angen yr help hwn arnoch am o leiaf 6 mis arall.

Gallwch gael Lwfans Byw i'r Anabl hyd yn oed os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd.

Mae 'help gyda gofal personol' yn golygu bod angen help arnoch gyda phethau fel:

- ymolchi (a mynd i mewn i'r bath neu'r gawod ac allan ohono);
- gwisgo;
- bwyta;
- mynd i'r toiled a'i ddefnyddio (neu bad, comôd, pot gwely neu botel); neu
- gyfathrebu eich anghenion.

Gall hefyd olygu bod angen rhywun arnoch i'ch goruchwylio i sicrhau nad ydych yn rhoi eich hun neu eraill mewn perygl sylweddol. Er enghraifft, efallai bod angen help arnoch i:

- gadw golwg ar eich cyflwr meddygol neu ddeiet (er enghraifft, pethau fel help gyda therapi neu feddyginiaeth);
- cyfathrebu (oherwydd eich bod yn fyddar neu'n ddall neu â chyflwr arall sy'n golygu eich bod yn cael anhawster i gyfathrebu); neu
- diogelu eich hun rhag perygl nad ydych o bosibl yn gwybod ei fod yno.

Efallai bod angen help arnoch gyda gofal personol oherwydd:

- eich bod yn cael anhawster i symud eich breichiau neu'ch coesau yn esmwyth neu nad oes gennych reolaeth drostynt;
- eich bod yn colli'ch gwynt neu'n teimlo poen; neu
- eich bod wedi cael problemau gyda'ch ymddygiad, wedi cael anawsterau dysgu neu'n mynd yn ddryslyd;

neu rywbeth tebyg i hyn.

Cyfraddau'r elfen ofal

Ceir tair cyfradd o elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl.

Cyfradd isaf

Efallai y gallwch gael hwn os:

- oes angen help arnoch gyda gofal personol am rywfaint o'r dydd; neu
- fod eich anabledd yn golygu na allwch baratoi prif bryd wedi'i goginio i chi eich hun (pe bai'r cynhwysion gennych).

Cyfradd ganol

Efallai y gallwch gael hwn os oes angen:

- help gyda gofal personol neu oruchwyliaeth gyson drwy gydol y dydd yn unig;
- help gyda gofal personol neu oruchwyliaeth yn ystod y nos yn unig; neu
- rywun gyda chi pan fyddwch ar beiriant dialysis.

Cyfradd uchaf

Efallai y gallwch gael hwn os oes angen help arnoch gyda gofal personol neu oruchwyliaeth drwy gydol y dydd a hefyd yn ystod y nos.

Rheolau arbennig

Mae gennym drefniadau o'r enw rheolau arbennig i helpu pobl sy'n dioddef o salwch angheuol (pobl sydd ag afiechyd cynyddol ac nad oes disgwyl yn rhesymol iddynt fyw am fwy na 6 mis arall). Mae'r rheolau arbennig yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu budd-dal cyn gynted â phosibl. Gall pobl o'r fath fod yn gymwys ar unwaith i gael cyfradd uchaf yr elfen ofal. Gallwch wneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer person sy'n dioddef o salwch angheuol heb eu bod yn gwybod neu heb eu caniatâd. Dylech wneud cais ar unwaith.

Elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl

I gael elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl, mae'n rhaid eich bod:

- yn methu â cherdded, neu bron yn methu â cherdded oherwydd eich anabledd corfforol; neu
- angen arweiniad neu oruchwyliaeth gan berson arall wrth gerdded yn yr awyr agored mewn lleoedd anghyfarwydd oherwydd eich anabledd corfforol neu feddyliol.

Hefyd, mae'n rhaid eich bod wedi cael yr anawsterau cerdded hyn am o leiaf 3 mis, ac mae'n rhaid ei bod yn debygol y byddant gennych am o leiaf 6 mis arall.

Cyfraddau elfen symudedd

Ceir dwy gyfradd o elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl.

Cyfradd isaf

Efallai y gallwch gael hwn os gallwch gerdded, ond bod angen arweiniad neu oruchwyliaeth arnoch gan berson arall pan fyddwch yn cerdded yn yr awyr agored mewn lleoedd anghyfarwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydych yn achosi perygl i'ch hun neu i bobl eraill.

Efallai bod angen yr help hwn arnoch oherwydd:

- bod gennych broblemau yn rheoli eich ymddygiad;
- rydych yn ddall neu'n fyddar; neu
- fod angen rhywun i gadw llygad agos ar eich cyflwr;

neu rywbeth tebyg i hyn.

Cyfradd uwch

Efallai y gallwch gael y gyfradd uwch os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol, hyd yn oed wrth wisgo neu ddefnyddio unrhyw gymorth neu gyfarpar rydych fel arfer yn ei ddefnyddio (er enghraifft, coes ffug).

- Os na allwch gerdded o gwbl.
- Os mai dim ond pellter byr y gallwch gerdded heb anesmwythder difrifol.
- Gallai'r ymdrech o gerdded beryglu eich bywyd neu effeithio ar eich iechyd yn ddifrifol.
- Os ydych yn 100% dall ac yn 80% byddar a bod angen rhywun arnoch pan fyddwch yn yr awyr agored.
- Os ydych wedi cael y ddwy goes wedi'u torri i ffwrdd wrth y pigwrn neu'n uwch, neu'ch bod wedi'ch geni heb goesau neu draed.
- Os ydych yn cael y gyfradd uchaf o elfen ofal a bod nam difrifol ar eich meddwl a bod gennych broblemau ymddygiad difrifol.

Beth arall ddylwn i ei wybod?

Help i ofalwyr

Os ydych yn cael elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, a bod rhywun yn gofalu amdanoch am 35 awr neu fwy yr wythnos, efallai y gallant gael Lwfans Gofalwr. Dylai'ch gofalwr wneud cais am Lwfans Gofalwr ar yr un pryd ag yr ydych yn gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl fel na fyddant yn colli unrhyw fudd-dal. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen 'Lwfans Gofalwr'.

Gallwch gael ffurflen gais Lwfans Gofalwr o'r lleoedd canlynol.

- Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, drwy ffonio **0800 88 22 00** (gweler 'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?' ar y daflen hon).
- Uned Lwfans Gofalwr, drwy ffonio **01253 856123** (ffôn testun **01772 899489**).

Gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr ar-lein yn **www.dwp.gov.uk**. Dylech edrych am yr adran ar gyfer 'pobl anabl a gofalwyr'. Neu, ewch i **www.direct.gov.uk/carers**.

Mathau eraill o help

Efallai y gallwch gael mathau eraill o help oherwydd eich bod yn cael Lwfans Byw i'r Anabl. Efallai y gallwch gael swm ychwanegol ar gyfer anabledd mewn Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor neu Gredyd Treth Gwaith, ac ar gyfer anabledd difrifol yn y rhain neu Gredyd Pensiwn os nad oes gennych ofalwr sy'n cael Lwfans Gofalwr. Mae'r daflen **'Canllaw i bobl anabl, rhai â chyflyrau iechyd, a gofalwyr'** yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol. Gallwch gael copi o'r daflen hon ar y wefan **www.canolfanbydgwaith.gov.uk.**

Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

Gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl

Os credwch y gallech gael Lwfans Byw i'r Anabl, llenwch y slip ateb a'i anfon atom. Does dim angen stamp arno. Yna byddwn yn anfon ffurflen gais atoch a nodiadau i'ch helpu i'w llenwi.

Anfonwch eich slip ateb atom cyn gynted â phosibl.

Gallwch hefyd gael ffurflen gais:

- drwy ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (gweler **'Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth'** ar y daflen hon)
- gan ganolfannau cynghori fel canolfannau Cyngor ar Bopeth; neu
- ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn **www.dwp.gov.uk.** Dylech edrych ar yr adran ar gyfer 'pobl anabl a gofalwyr'.

Gallwch wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar-lein. Mae'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn **www.dwp.gov.uk.** Dylech edrych ar yr adran ar gyfer 'pobl anabl a gofalwyr'. Neu, ewch i **www.direct.gov.uk/disability.**

Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?

Dros y ffôn

Gall y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau eich helpu os oes angen:

- rhagor o wybodaeth am Lwfans Byw i'r Anabl neu fudd-daliadau eraill y gallech wneud cais amdanynt;
- help i lenwi'r ffurflen gais;
- ffurflen gais; neu
- ffurflen gais mewn Braille neu brint bras.

Gallwch eu ffonio ar **0800 88 22 00**. Mae hefyd gwasanaeth ffôn testun ar **0800 24 33 55** ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd. Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hun, maent ar gael mewn rhai llyfrgelloedd a rhai canolfannau Cyngor ar Bopeth. Nid yw'r gwasanaethau ffôn testun hyn yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol. Rydym hefyd yn croesawu galwadau o RNID Typetalk.

Gallwn hefyd ddarparu dehonglydd, neu efallai y byddwch am drefnu i gyfaill neu aelod o'ch teulu ddehongli ar eich cyfer.

Ar y rhyngrwyd

Directgov

Straight through to public services

Ewch i Directgov i gael yr amrywiaeth ehangaf o wybodaeth ar-lein gan y Llywodraeth – mae adran ar gyfer pobl anabl sy'n cwmpasu cymorth ariannol, hawliau anabledd, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy. Ceir hefyd adran i ofalwyr.

www.direct.gov.uk/disability

www.direct.gov.uk/carers

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg, mewn print bras, mewn Braille, ar gasét ac ar CD. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Gallwch eu ffonio ar **0800 88 22 00.** Mae hefyd gwasanaeth ffôn testun ar **0800 24 33 55** i bobl â nam ar eu clyw ac ar eu lleferydd. Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Rydym wedi gwneud pob ymdrech i wneud yn siŵr bod y wybodaeth ar y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod.

Rhif Cyf. DLAA5DCSW fersiwn 1/06
ISBN: 1-84388-814-9

Cais am Ffurflen Gais
Claim Form Request

A wnewch chi anfon ffurflen gais ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer rhywun sy'n 16 oed neu'n hŷn ataf.

Please send me a claim form for Disability Living Allowance for someone aged 16 or over.

Defnyddiwch inc ac ysgrifennwch mewn LLYTHRENNAU BRAS.

Please use ink and write in BLOCK LETTERS.

Ticiwch flwch isod a dewiswch ffurflen gais mewn print safonol, print bras neu Braille.

Tick a box below to choose a claim form in standard print, large print or Braille.

☐ Print safonol / Standard print

☐ Print bras / Large print

☐ Braille

Enw:
Name:

Cyfeiriad:
Address:

Cod post:
Postcode:

Business Reply Service
Licence No OL5225

1

Department for Work and Pensions
PO Box 50
Heywood
Lancashire
OL10 2GF